

Yr Ail Rhyfel Byd a'r 'Blitz'

Y 'Blitz' oedd yr enw a roddir ar gyfnod rhwng mis Medi 1940 a Mai 1941 ble bu ymosodiadau cyrchoedd awyr cyson ar Brydain.

Prif dargedau bomiau'r Natsïaid oedd y dinasoedd a'r canolfannau masnach.

Yn 1940 rhybuddiodd Winston Churchill, 'nid y milwyr yn unig sy'n brwydro, ond y boblogaeth gyfan - dynion, menywod a phlant.' Lladwyd 60,000 o Brydeinwyr mewn cyrchoedd awyr yma ym Mhrydain.

Yng Nghymru, cafodd Caerdydd ac Abertawe eu targedu gan eu bod yn borthladdoedd pwysig ar gyfer allforio glo a metelau. Dros dair noson ym mis Chwefror 1941 fe laddwyd 230 ac anafwyd 397 o bobl yn Abertawe yn unig.

Pwy oedd wardeiniaid yr ARP?

Sefydlwyd y Gwasanaeth ARP (*Air Raid Precaution*) ym 1937 fel rhan o amddiffyniad y 'Ffrynt Cartref'.

Gwirfoddolodd 200,000 o bobl yn y flwyddyn gyntaf, a thros gyfnod yr Ail Ryfel Byd roedd 1.4 miliwn o wardeiniaid ym Mhrydain.

Yr awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am recriwtio a hyfforddiant.

Nid oedd cyfyngiadau ar bwy oedd yn cael bod yn warden ac roedd merched, yr henoed, a phlant yn eu harddegau yn cael eu derbyn.

Gwirfoddolwyr di-dâl oedd y mwyafrif.

Erbyn 1939 roedd rhai wardeiniaid yn cael eu cyflogi'n llawn amser ar gyfradd o £3 yr wythnos.

Sefydlwyd y *Women's Voluntary Services* (WVS) er mwyn recriwtio merched i'r gwasanaeth ac erbyn 1940 roedd bron i 20,000 yn cael eu cyflogi fel wardeiniaid.

Ym 1941, rhoddwyd enw newydd i'r ARP sef y Gwasanaeth Amddiffyn Sifil, teitl a oedd yn cwmpasu'r holl waith y bu'n rhaid i'r gwirfoddolwyr ymgymryd ag o.



Chwib & golau beic ARP



Yr ARP

Beth oedd prif ddyletswyddau'r wardeiniaid?

Roedd y wardeiniaid yn gyfrifol am

- Dosbarthu ac arolygu masgiau nwy.
- Sicrhau fod pawb yn cadw at reolau'r 'blacowt'. Byddai'r wardeiniaid yn mynd o amgylch er mwyn gwirio bod unrhyw olau wedi cael ei ddiffodd neu ei 'flocio' gyda cherdyn neu gyrten tew. Gellid codi ffein hallt pe byddai unigolyn yn torri'r rheolau.
- Cynnal a chadw'r llochesau cyrch awyr/Anderson Shelters.
- Ar ôl i fom ffrwydro, y wardeiniaid oedd yn achub y bobl oedd wedi cael eu dal yn y rwbel, yn aduno teuluoedd oedd wedi eu gwahanu, ac yn darganfod lloches dros dro i'r rhai oedd yn ddiartref.



Ratl ARP



Het Ddur y 'First Aid Party of the Civil Defence'

Rolau Amrywiol o fewn yr ARP

- Cymorth Cyntaf (llythrennau FAP ar eu hetiau caled) - cafodd y rhain eu penodi i roi triniaeth feddygol ar y safle yn dilyn cyrch awyr.
- Negeseuwyr (M) - yn aml yn ifanc, rhwng 14 a 18 oed, ac yn gyfrifol am gludo negeseuon pan fyddai llinellau ffôn wedi'u dinistrio neu ddim ar gael.
- Gyrwyr Ambiwylans (A).
- Gwasanaeth Tân (W/FG) - roedd y rhain i'w gweld mewn dinasoedd a threfi mawr.

Argraffiadau o'r Wardeiniaid

Efallai mai'r enghraifft 'enwocaf' o warden ARP yw'r Prif Warden Hodges ar y rhaglen *Dad's Army*. Mae'n gymeriad hunanbwysig, rhodresgar ac annymunol, ac yn cyd-fynd â rhai o ragfarnau'r cyhoedd yn 1939.

Mae misoedd cyntaf yr Ail Ryfel Byd yn cael eu hadnabod fel cyfnod y 'Ffug Ryfel' (*Phoney War*), a hynny gan fod dim ymladd ar y ffrynt Gorllewinol.

Roedd nifer yn ddirmygus o'r wardeiniaid am orfodi 'blacowt' llym a chodi dirwyon mawr.

Ar ôl i'r bomio ddechrau ym 1940 newidiodd barn y cyhoedd yn gyflym ac fe gafodd y wardeiniaid eu trin gyda llawer mwy o barch.

Roedd yn swydd bwysig a pheryglus ac fe laddwyd bron i 7,000 o weithwyr y Gwasanaeth Amddiffyn Sifil yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

CYD-DESTUN LLEOL: Bom yn syrthio ym Mangor

Ar y 24ain o Hydref 1941, gollyngwyd bom ar Faesgeirchen gan achosi difrod mawr.

Roedd yn syndod mawr gan fod Bangor yn cael ei hystyried yn ardal 'ddiogel' ac yn lloches i nifer o faciwis o'r trefi mawrion.

Mae'n debygol mai Lerpwl oedd y targed arfaethedig, ond bod y peilot wedi mynd ar goll neu fod angen ysgafnhau llwyth yr awyren wrth hedfan dros arfordir Gogledd Cymru.

Lladdwyd 3 yn yr ymosodiad: C. Waters, gyrrwr a oedd ar y ffordd adref at ei wraig ar ôl clywed y gloch rhybudd; Jack Lewis, oedd yn gweithio i'r Swyddfa Bost; ac Anne Roberts, oedd yn aros gyda'i merch ar y pryd.

Cludwyd 9 i'r ysbyty gyda dau mewn cyflwr difrifol. Un o'r cleifion oedd Glenys Roberts ac fe gollodd hi ei golwg mewn un llygad o ganlyniad i'r bom.

https://www.youtube.com/watch?v=M88F3TE_f3o

Hanes llafar y bomio

<https://youtu.be/yEn2cGx1pZQ>

